

Cofnodion cyfarfod misol rhithwir Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd
Gorffennaf 14ddeg 2021 am 7.30 o'r gloch.
Minutes of Llanddona Community Council virtual monthly meeting held on 14th
July 2021 7.30pm

Presennol/Present – Is-Cadeirydd/*Deputy Chairperson* Martin Hennessey, Rhian Hughes, Mark Griffiths, Barbara Williams, Harri Owen, Martin Hennessey, Gwennan Hughes a Geraint Parry (*Clerc/Clerk*)
Cynghorwyr Sir/*County Councillors* –

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Myrddin Roberts, Maldwyn Williams, Carwyn Jones, Alun Roberts, Gary Pritchard
2. **Cofnodion / Minutes** - penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16ddeg o Fehefin fel rhai cywir gan Mark Griffiths, eiliwyd gan Barbara Williams / *Minutes of the previous meeting held on 16th June were accepted as accurate by Mark Griffiths, seconded by Barbara Williams.*
3. **Datgan diddordeb rhagfarnol/ Declaration of prejudicial interest**
 - 3.1 Datganodd Cyng. M Hennessey a Cyng. H Owen fuddiant sy'n rhagfarnol ar eitem 11.2 oherwydd eu bod yn gysylltiedig â'r ymgeiswyr / *Clr. M Hennessey and Clr. H Owen declared an interest that is prejudicial on item 11.2 because they are related to the applicants.*
4. **Seddi Gwag / Empty Seats**
 - 4.1 Mae dau ymgeisydd wedi dod ymlaen ar gyfer y swydd wag, sef Anthony Jones a Robert Davies. Penderfynwyd yn unfrydol bod Cynghorwyr i bleidleisio ar e-bost at y Clerc / *Two candidates have come forward for the vacancy, namely Anthony Jones and Robert Davies. It was unanimously decided that Councillors to vote be e-mail to the Clerk.*
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 5.1 Maes Chwarae Plant - esboniodd y Clerc fod dryswch ynglŷn â'n ffurflen gais a ddefnyddiwyd a bod angen cwblhau cais pellach erbyn 31/08/21 / *Children's Play Area - the Clerk explained that there was confusion regarding the application form used and a further application needs to be completed by 31/08/21.*
 - 5.2 Arwydd Eglwys Llanfihangel - dim gwybodaeth bellach ynglŷn ar arwydd newydd / *Llanfihangel Church sign - no further information regarding a new sign.*
 - 5.3 Gordyfiant ar ochrau'r lonydd cul - eglurodd Cyng. G Hughes y bydd gwaith yn dechrau yfory 15/07 yn dilyn cwyn / *Overgrowth on the sides of the narrow lanes - Clr. G Hughes explained that following a complaint, work is to begin tomorrow 15/07.*
 - 5.4 Lwfans Cynghorwyr 2021/22 - Atgoffodd y Clerc bawb i ddychwelyd eu ffurflenni / *Councillors Allowance 2021/22 - The Clerk reminded all to return their forms.*
 - 5.5 Awdit / Audit 2019/20 - esboniodd y Clerc fod y ddogfennaeth wedi'i chyflwyno i Archwilio Cymru. Nododd yr Archwiliad Mewnol nad oedd un siec wedi'i phrosesu, penderfynwyd yn unfrydol i ganslo'r siec a thalu'r cyflenwr drwy Bacs / *The Clerk explained that the documentation has been submitted to Audit Wales. It was noted by Internal Audit that one cheque had not been processed, it was unanimously decided to cancel the cheque and pay the supplier via Bacs.*
 - 5.6 Mynychodd Cynghorwyr B Williams a R Hughes y sesiwn dolydd godidog ar 3/07/21 / *Councillors B Williams and R Hughes attended the magnificent meadows session on the 3/07/21*
 - 5.7 Eglurodd y Clerc gefndir y llythyr ynghylch taliadau claddu / *The Clerk explained the background to the letter regarding burial charges.*

6. Adrodd gan y Cynghorwyr Sir / Report by County Councillors

- 6.1 Nodwyd gyda siom nad oedd unrhyw Gynghorydd Sir yn bresennol yn ein cyfarfod / *It was noted with disappointment that there no County Councillor was in attendance at our meeting.*

7. Traeth / Beach

- 7.1 Adroddwyd bod y maes parcio ar y traeth wedi cael wyneb newydd a disgwylir peiriant dosbarthu bagiau cŵn / *It was reported that the car park at the beach has been resurfaced and a dog bag dispenser is expected.*
- 7.2 Darllenodd y Clerc yr ymateb gan CNC yn dilyn ein cwyn swyddogol ynghylch penderfyniad y clawdd dail wedi'i gwrthdroi. Nododd yr Aelodau gyda siom nad ydynt wedi ymateb i'r cwyn ei hun ynghylch pam y gwnaethant newid eu penderfyniad ar y mater hwn.
Penderfynwyd ymateb i CNC drwy anfon copi o'r llythyr a anfonwyd at y tîrfeddiannwr *The Clerk read out the response from NRW following our official complaint regarding there reversed decision on the manure hedge. Members noted with disappointment that they have not responded to the actual complaint of changing their decision on this matter.*
It was decided to respond to NRW by sending a copy of the letter sent to the landowner.
- 7.3 Adroddodd Cyng. G Hughes ar y cyfathrebiad gan y cyfreithiwr, Clerc i anfon materion ymlaen / *Clir. G Hughes reported on the communication from the solicitor, Clerk to forward matters.*
- 7.4 Darllenodd y Clerc y cyfathrebiad gan y Swyddog Cynllunio Gwastraff ynglŷn â'r difrod i'r tir gyferbyn â Phen Trans a'r deunydd gwastraff. Mae'r Swyddog wedi gofyn i'r tîrfeddiannwr symud y tomennu bach o bridd, lle mae'r tîrfeddiannwr wedi cytuno. / *The Clerk read out the communication from the Waste Planning Officer regarding the damage to the land opposite Pen Trans and the waste material. The Officer has asked the landowner to move the small mounds of soil, of which the landowner has agreed.*
- 7.5 Trafodwyd yr angen dybryd i atgyweirio'r ffyrdd i lawr i'r traeth / *Discussed the urgent need to repair the roads down to the beach.*

8. Cynllun Lle / Place Plan

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd peidio â mynd ar drywydd angen y cynllun oherwydd cymhlethdodau a mewnbwn. Bydd cyfle i gyfrannu ar gynllun datblygu Gwynedd a Môn y flwyddyn nesaf. / *Following a discussion, it was decided not to pursue the need of the plan due to its complexities and input. There will be an opportunity to input on the Gwynedd & Mon development plan next year.*

9. Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths

- 9.1 Esboniodd y Clerc fod ffens wedi'i rhoi ar draws llwybr troed cyhoeddus (22/01/046) ger Cae Maes Mawr a adroddwyd i'r Cyngor Sir. Oherwydd bod 2 lwybr troed arall gerllaw, nid ydynt yn bwriadu cymryd camau gorfodi / *The Clerk explained that a fence has been put across a public footpath (22/01/046) near Cae Maes Mawr that was reported to the County Council. Due to the fact there are 2 other footpaths nearby, they do not intend to take enforcement action.*
- 9.2 Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â'n contractwr i nodi llwybrau eraill y mae angen eu cynnal a'u cadw / *The Chairperson has met up with our contractor to identify other paths that require maintenance.*
- 9.3 Adroddwyd bod y giât bren ar y llwybr troed ger Tyddyn Bach wedi torri a hefyd bod ffens drydan wedi ei rhoi ar y llwybr troed ger Tan y Gryddyn. Deallir y bydd y Cyngor Sir yn cyhoeddi hysbysiad gorfodi ar berchnogion Tyddyn Bach a Thŷ Pwtt / *It was reported that the wooden gate on the footpath by Tyddyn Bach is broken and also an electric fence has been put on the footpath near Tan y Gryddyn. It is understood that*

the County Council are to issue an enforcement notice on the owners of Tyddyn Bach a Ty Pwtt.

- 9.4 *Nodwyd bod angen torri'r llwybr troed ar draws Comin Rhos / It was noted that the footpath across Rhos Common needs cutting*

10 Cynghrair Seiriol / Seiriol Alliance

Eglurodd Cyng. R Hughes ei rôl newydd fel Swyddog Pontio'r Cenedlaethau ar gyfer Cynghrair Seiriol gan weithio ar gynllun peilot i uno'r gwaith o fewn Ward Seiriol. Bydd yn gweithio gydag asiantaethau amrywiol o fewn y ward. Un prosiect o ddiddordeb yw "Meinciau Cyfeillgarwch", lle mae dwy fainc o fewn y Gymuned wedi'u clustnodi ar gyfer gwaith adnewyddu. / Clr. R Hughes explained her new role as Intergenerational Officer for the Seiriol Alliance, working on a pilot scheme to join together the work within the Seiriol Ward. Will working with various agencies within the ward. One project of interest is "Friendship Benches", where two benches within the Community has been earmarked for refurbishment.

11 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

- 11.1 *HHP/2021/202 – Ffynnon Oer, Llanddona – cais llawn ar gyfer adeiladu garej / gweithdy dwbl arwahan gyda strofa / stiwdio uchod - penderfynwyd gwrthod y cais - gan nad oes mynediad i'r safle hwn oherwydd tirlithriad / full application to build double garage / separate storeroom above - is was decided to refuse the application - as there is no access to this site due to landslide.*
- 11.2 *FPL/2021/143 – Tylluan Wen, Llanddona - cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i 2 Llety gwyliau - dim gwrthwynebiad / Full application for conversion of an outbuilding into 2 Holiday units - no objection.*

Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decisions

- 11.3 *Ni dderbyniwyd unrhyw benderfyniadau cynllunio / No planning decisions received*

12 Cyfrifon / Accounts

Anfonebau i'w talu / Invoices for payment:-

- 12.1 *Aelodaeth – SLCC – membership - £67.00*
- 12.2 *Adrodd – ROSPA - Report - £82.20*
- 12.3 *Vinyls 4U - £165.00*

13 Gohebiaeth / Correspondence

- 13.1 *Cyfarfod Cwllwm Seiriol meeting – 15/07/21*
- 13.2 *Fforwm Cyswllt Cyngor Dref a Chyngor Cymunedau - / Town & Community Council Liaison Forum - 22/07/21 @ 18:30pm*
- 13.3 *Adolygiad Afon Menai / Menai Straits review*
- 13.4 *Ymgynghoriad ar dreth cyngor ail gartrefi / Consultation on second homes council tax*
- 13.5 *Digwyddiad Cwllwm Seiriol / Cwllwm Seiriol event – 03/07/21*
- 13.6 *Tipio anghyfreithlon ar dir comin / Fly tipping on common land*
- 13.7 *Fferm Wynt alltraeth Awel y Môr / Awel y Môn offshore wind farm*
- 13.8 *Hyfforddiant Un Llais Cymru - Gorffennaf / One voice Wales training - July*
- 13.9 *Unllais Cymru - bwletin / One Voice Wales - bulletin*
- 13.10 *Lansio ymgynghoriad cymwysterau Clercod / Consultation on qualifications of Clerks*
- 13.11 *Wefannau Cynghorau Cymuned / Community Council websites*
- 13.12 *Ymgyrch Pont Llundain / Operation London Bridge*

14. UFA / AOB

- 14.1 *Cododd Cyng. M Griffith fater mainc ar gyfer y Fynwent Gymunedol. Penderfynwyd trafod y mater hwn ymhellach / Clr. M Griffith raised the matter of a bench for the Community Cemetery. It was decided to further discussion this matter.*
- 14.3 *Yn dilyn cwyn, mae'r adran Priffyrdd wedi cytuno i dorri'r gordyfiant ar y priffyrdd / Following a complaint, the Highways department have agreed to cut the over growth on to the highways.*

- 14.4 Darllenodd y Clerc y pwyntiau a godwyd o adroddiad ROSPA am Iard Chwarae a'r camau y dylid mynd i'r afael â'r. / *The Clerk read out the points raised from the Playground ROSPA report and actions to be addressed.*
- 14.5 Tipio Anghyfreithlon - 1) cafodd creaduriaid bach môr marw eu gollwng ger y postyn bys ar dir comin Rhos. Cafodd y digwyddiad hwn ei adrodd i'r Cyngor Sir a'i symud ar unwaith. 2) Gwaredu deunydd gwastraff ar dir comin y tu ôl i Tyn Llan. Gwnaed cais i'r cyflawnwr i dynnu'r deunydd.
Fly Tipping - 1) small dead sea creatures was dumped near the finger post on the Rhos common land. This incident was reported to the County Council and removed immediately. 2) Dumping of waste material on common land behind Tyn Llan. A request to the perpetrator has been made to remove the material.
- 14.6 Cytunwyd yn unfrydol i ddyfyniad i dynnu'r helyg ar dir comin y tu ôl i Fynydd Crafoed / *It was unanimously agreed to the quotation to remove the willow on common land behind Mynydd Crafoed.*
- 14.7 Yn dilyn canllawiau ar gan Un Llais Cymru, cynghorodd y Clerc yr angen i ddiweddarau'r manylion cyswllt ar ein gwefan / *Following guidance for One Voice Wales, the Clerk advised the need to update contact details on our website*
- 14.8 Cododd Cynghorydd bryder am yr angen i dorri'r helyg yn enwedig ar ddiwedd ffordd Bryn Ffynnon. Clerc i ddilyn y pwyntiau a godwyd gyda Menter Môn / *A Councillor raised concern about the need to cut the willow especially at the end of Bryn Ffynnon road. Clerk to follow up the points raised with Menter Môn*

15. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:10. Cyfarfod nesaf ar 18/08/21 am 19:30 /*There was no further business to discuss. Meeting ended 21:10pm. Next meeting to be held on 18/08/21 at 19:30pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad